

## **Wheelabrator Parc Adfer**

### **Community Liaison Group (CLG)**

### **Terms of reference**

#### *General purpose*

As a responsible developer and operator, Wheelabrator intends to become a part of the community around Deeside and to strive to be a good neighbour. The CLG helps with this aim as it exists to provide a transparent link between Wheelabrator, the community and other local stakeholders.

The CLG will ensure the local community is involved throughout the construction and operation of the Wheelabrator Parc Adfer facility. The group will discuss progress, resolve issues and help the wider community to better understand the role and operation of the facility.

#### *Guiding principles*

- The CLG will be big enough to represent all interested parties and yet small enough to function effectively
- The group will provide a forum for constructive, open and honest discussion
- The CLG is not a public meeting although members of the public are permitted to attend by invitation
- The meeting will predominantly be for representatives of community groups and organisations within the area immediately local to the Wheelabrator Parc Adfer site
- Members will be encouraged to put forward the views and concerns of those they represent for discussion and, where appropriate, resolution
- The members are responsible for channelling responses and resolutions back to their respective organisations
- Where possible and practical, action will be taken by Wheelabrator as a result of issues raised and the results of the actions will be reported back to members at the next meeting
- If urgent action is required then Wheelabrator will report back to relevant individual members at the earliest possible opportunity and not wait for the next meeting
- Where decisions or recommendations need to be made, the chair will organise a vote of members. Each member organisation will have one vote
- Representation at CLG meetings is limited to one person from each member organisation. If the named representative is unable to attend, organisations are welcome to send a substitute
- The members will decide if and when the CLG should be disbanded

- Any new organisations wishing to be considered as members of the CLG should email Wheelabrator at [info@parcadfer.com](mailto:info@parcadfer.com)

#### *Chairing of meetings*

- The chair will be elected by members and will stand for a period of two years, after which they will be invited to stand down or put themselves forward for re-election alongside other self-nominated candidates drawn from the membership
- The chair will run meetings in a manner that is efficient, inclusive, impartial and constructive

#### *Meeting logistics*

- Agendas and an invitation to attend will be issued by Wheelabrator at least two weeks before each meeting
- Members will be asked to confirm their attendance or give their apologies to Wheelabrator
- Members wishing to propose items for discussion should email [info@parcadfer.com](mailto:info@parcadfer.com) at least one week before each meeting or raise the issue during the AOB item on each agenda
- Presentations, agendas and minutes will be published on the internet
- Minutes of the previous meeting will be enclosed with invitations to the subsequent meeting
- Wheelabrator representatives will be present at all meetings
- Meetings will last for no more than two hours
- Meetings will include an update from Wheelabrator and / or its main contractors as well as other guest speakers as and if required
- For those wishing to speak Welsh, simultaneous translation will be available if requested by members

#### *Venue and timing*

- The CLG will meet approximately quarterly
- Subject to availability, meetings will be held at the Town Council offices in Connah's Quay and move to the facility's Visitor's Centre once construction is complete
- CLG meetings will generally be held on Thursday evenings

## **Cylch gorchwyl**

### **Grŵp Ymgysylltu â'r Gymuned**

### **Parc Adfer Wheelabrator**

#### *Diben cyffredinol*

Fel datblygwr a gweithredwr cyfrifol, mae Wheelabrator yn bwriadu bod yn rhan o'r gymuned o amgylch Glannau Dyfrdwy a cheisio ei orau glas i fod yn gymydog da. Mae'r Grŵp Ymgysylltu â'r Gymuned (y Grŵp) yn helpu i gyflawni'r nod hwn gan ei fod yn bodoli i ddarparu dolen dryloyw rhwng Wheelabrator, y gymuned a rhanddeiliaid lleol eraill.

Bydd y Grŵp yn sicrhau bod y gymuned leol yn rhan o'r holl waith adeiladu a gweithredu cyfleuster Parc Adfer Wheelabrator. Bydd y Grŵp yn trafod cynnydd, yn datrys problemau ac yn helpu'r gymuned ehangach i ddeall yn well rôl a gweithrediad y cyfleuster.

#### *Yr egwyddorion arweiniol*

- Bydd y Grŵp yn ddigon mawr i gynrychioli'r holl bartïon â diddordeb ac eto'n ddigon bach i weithredu'n effeithiol
- Bydd y Grŵp yn fforwm ar gyfer trafodaethau adeiladol, agored a gonest
- Nid yw'r Grŵp yn gyfarfod cyhoeddus er bod croeso i aelodau'r cyhoedd fynychu drwy wahoddiad
- Bydd y cyfarfod yn bennaf ar gyfer cynrychiolwyr grwpiau a sefydliadau cymunedol yn yr ardal sy'n agos iawn at safle Parc Adfer Wheelabrator
- Caiff aelodau eu hannog i leisio barn a phryderon y bobl maen nhw'n eu cynrychioli er mwyn cael trafodaeth a, lle bo'n briodol, datrysiad
- Mae'r aelodau'n gyfrifol am roi adborth ar yr ymatebion a datrysiadau i'w priod sefydliadau
- Lle bo'n bosibl ac yn ymarferol, bydd Wheelabrator yn gweithredu ar y materion sy'n codi a chaiff canlyniadau'r camau gweithredu hyn eu hadrodd i aelodau yn y cyfarfod nesaf
- Os oes angen gweithredu ar frys, yna bydd Wheelabrator yn adrodd i'r aelodau unigol perthnasol cyn gynted â phosibl heb aros tan y cyfarfod nesaf
- Lle bydd angen gwneud penderfyniadau neu argymhellion, bydd y cadeirydd yn trefnu pleidlais ymhlith yr aelodau. Bydd pob sefydliad sy'n aelod yn cael un bleidlais
- Dim ond un cynrychiolydd o bob sefydliad sy'n aelod gaiff fynd i gyfarfodydd y Grŵp. Os na all y cynrychiolydd hwnnw fod yn bresennol, mae croeso i sefydliadau anfon dirprwy
- Bydd yr aelodau'n penderfynu os a phryd y dylai'r Grŵp wahanu
-

- Dylai unrhyw sefydliadau newydd sy'n awyddus i gael eu hystyried fel aelodau o'r Grŵp e-bostio Wheelabrator yn [info@parcadfer.com](mailto:info@parcadfer.com)

#### *Cadeirio cyfarfodydd*

- Bydd y Cadeirydd yn cael ei ethol gan aelodau a bydd yn sefyll am gyfnod o ddwy flynedd, ac ar ôl hynny bydd yn cael ei wahodd i roi'r gorau iddi neu i gytuno i gymryd rhan mewn etholiad arall ochr yn ochr ag ymgeiswyr eraill sydd wedi enwebu eu hunain o blith yr aelodau
- Bydd y cadeirydd yn cynnal cyfarfodydd mewn dull sy'n effeithlon, yn gynhwysol, yn ddiudedd ac yn adeiladol

#### *Logisteg cyfarfodydd*

- Bydd Wheelabrator yn cyhoeddi agendâu a gwahoddiadau i fynychu o leiaf bythefnos cyn pob cyfarfod
- Bydd gofyn i aelodau gadarnhau eu presenoldeb neu i ymddiheuro i Wheelabrator
- Dylai'r aelodau sydd am gynnig eitemau i'w trafod e-bostio [info@parcadfer.com](mailto:info@parcadfer.com) o leiaf wythnos cyn pob cyfarfod neu godi'r mater yn ystod yr eitem 'Materion Eraill' ar bob agenda
- Bydd cyflwyniadau, agendâu a chofnodion yn cael eu cyhoeddi ar y rhyngrwyd
- Bydd cofnodion y cyfarfod blaenorol yn cael eu hamgáu gyda gwahoddiadau i'r cyfarfod nesaf
- Bydd cynrychiolwyr Wheelabrator yn bresennol ym mhob cyfarfod
- Bydd y cyfarfodydd yn para dwy awr ar y mwyaf
- Bydd y cyfarfodydd yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf gan Wheelabrator a / neu ei brif contractwyr yn ogystal â siaradwyr gwadd eraill pan fo angen
- I'r aelodau hynny sy'n awyddus i siarad Cymraeg, bydd cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gael ar gais

#### *Lleoliad ac amser*

- Bydd y Grŵp yn cyfarfod bron bob chwarter
- Bydd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn swyddfeydd Cyngor Tref Cei Connah, ar yr amod eu bod ar gael, ac yn symud i Ganolfan Ymwelwyr y cyfleuster unwaith y bydd y gwaith adeiladu wedi'i orffen
- Fel rheol, bydd cyfarfodydd y Grŵp yn cael eu cynnal ar nos lau